

DEDDF PRIFFYRDD 1980 : Adran 172
DEDDF FFYRDD NEWYDD A GWAITH STRYD 1991 : Adran 59

CANIATÂD I GODI BALIS/FFENS AR Y BRIFFORDD

AMODAU

Trwy hyn mae **Cyngor Sir Caerfyrddin** (y cyfeirir ato fel "y Cyngor" o hyn ymlaen) yn rhoi caniatâd i'r ymgeisydd godi **balis** (y cyfeirir ato fel "y strwythur perthnasol" o hyn ymlaen) yn y lleoliad a nodir yn y caniatâd, ar y briffordd yn unol ag Adran 172 o Ddeddf Priffyrdd 1980, yn unol â'r amodau canlynol:

1. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd fydd sicrhau y cydymffurfir â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol.
2. Bydd yr ymgeisydd yn indemnio ac yn cadw'r Cyngor wedi ei indemnio yn erbyn pob trallod, camau gweithredu, trafodion, hawliadau, gofynion, costau, iawndal a threuliau y gellir eu codi, dwyn, neu wneud yn ei erbyn oherwydd unrhyw fater mewn perthynas â rhoi'r drwydded. Rhaid cyflwyno tystiolaeth o yswiriant i'r Cyngor, ar gais.
3. Rhaid i'r ymgeisydd gymryd pob gofal posibl o fewn rheswm i sicrhau bod pobl sy'n defnyddio'r briffordd yn ddiogel ac yn cael eu tywys yn briodol, gan roi ystyriaeth yn benodol i anghenion pobl ag anabledd. Tynnir sylw'r ymgeisydd at ofynion Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974. Rhaid cyflwyno copi o'r Datganiad a/neu'r Polisi Diogelwch i'r Cyngor ar gais.
4. Rhaid i'r ymgeisydd sicrhau bod y strwythur perthnasol wedi'i oleuo'n ddigonol bob amser rhwng hanner awr ar ôl y machlud a hanner awr cyn codiad yr haul.
5. Rhaid cadw'r droetffordd ar agor bob amser (ac eithrio ar gyfer amgylchiadau eithriadol, am resymau diogelwch ac wrth godi'r strwythur perthnasol a'i dynnu i lawr, pan ganiateir hynny).
6. Rhaid i'r ymgeisydd gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir iddo/iddi gan y Cyngor neu Awdurdod yr Heddlu mewn perthynas â chodi, lleoli a chynnal a chadw'r strwythur perthnasol ac arwyddion traffig o ran rhoi caniatâd.
7. Rhaid i'r ymgeisydd wneud pethau o'r fath mewn perthynas â'r strwythur perthnasol os bydd unrhyw Ymgymerydd Statudol neu Drwyddedai dan Drwydded Gwaith Stryd yn gwneud cais rhesymol iddo/iddi wneud hynny at ddibenion diogelu neu roi mynediad i unrhyw offer sy'n perthyn i neu'n cael ei ddefnyddio neu ei gynnal a'i gadw gan Ymgymerydd Statudol neu Drwyddedai dan Drwydded Gwaith Stryd.
8. Nid yw'r caniatâd yn esgusodi'r ymgeisydd rhag cael unrhyw gydsyniad, trwydded neu ganiatâd arall y gallai fod ei angen ac nid yw'n awdurdodi gosod strwythur perthnasol y mae angen caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol ar ei gyfer oni bai a hyd nes y rhoddir y drwydded honno.

9. Rhaid paentio pob ymyl yn felyn a rhaid gosod sribyn o ddeunydd â streipiau fflwroleuol coch bras a streipiau melyn adlewyrchol croeslinol ar hyd ochr allanol pob pen, sy'n amlwg i draffig. Rhaid sicrhau bod y paent a'r sribyn yn lân bob amser
10. Rhaid i'r strwythur perthnasol beidio ag ymestyn i'r briffordd, oni bai y cytunir ar hynny'n ysgrifenedig (gweler amodau 14 a 15 isod).
11. Rhaid cadw'r briffordd yn rhydd rhag yr holl ddeunydd adeiladu ac offer ac ni ddylid cymysgu dim concrid na mortar ar y briffordd.
12. Dylid symud y strwythur perthnasol mor fuan â phosibl.
13. Bydd holl gostau'r difrod neu'r gwaith adfer gofynnol yn sgil hynny yn cael eu hailgodi ar yr ymgeisydd.
14. Bydd unrhyw gais am ymestyn yr amser yn gorfod cael ei wneud yn ysgrifenedig i'r Cyngor.
15. Rhaid defnyddio rheolaeth traffig os caiff y gerbyttfordd ei lleihau i lai na 5 metr.
16. Yn unol â'r Rheoliadau Traffig a'r Cyfarwyddiadau Cyffredinol, rhaid rhoi gwybod i'r Awdurdod Priffyrdd am y defnydd o Arwyddion Traffig Symudol o leiaf saith diwrnod cyn codi'r strwythur perthnasol.
17. Os bydd yr ymgeisydd yn methu cydymffurfio â'r amodau uchod, gall yr Awdurdod Priffyrdd ofyn am i'r strwythur perthnasol gael ei waredu'n syth a thalu'r costau rhesymol wrth wneud hynny.

Cliff Cleaton
Rheolwr Gwaith Stryd a Mabwysiadu

Dylid cyfeirio'r holl ohebiaeth ynghylch y caniatâd at:

Yr Adain Gwaith Stryd
Cyngor Sir Caerfyrddin
Parc Myrddin
CAERFYRDDIN
SA31 1HQ

Dylid cyfeirio'r holl ymholiadau dros y ffôn i'r Adain Gwaith Stryd
Rhif ffôn: (01267) 2245..07,08 neu 09
e-bost: gofalstrydoedd@sirgar.gov.uk